**Lesley Griffiths AC / AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Materion Gwledig a'r Amgylchedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Mawrth 2020

Annwyl Mike,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Chwefror, ynghylch y cwestiynau na lwyddodd y Pwyllgor eu cyrraedd yn ystod sesiwn dystiolaeth yr ymchwiliad i dlodi tanwydd a fynychwyd gan Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a minnau ar 13 Chwefror.

**Y SECTOR RHENTU PREIFAT**

**Beth yw eich barn am yr awgrym gan randdeiliaid y dylid cynyddu Isafswm Safonau Effeithlonrwydd Ynni y sector rhentu preifat o Fand Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) E i Fand EPC C (neu uwch)?**

Mae'r Isafswm Safonau Effeithlonrwydd Ynni (MEES) a osodir ar y Sector Rhentu Preifat yn cael ei bennu drwy Reoliadau gan Lywodraeth y DU. Mae'r Rheoliadau yn golygu ers 1 Ebrill 2018, nid yw landlordiaid preifat yn gallu gosod eiddo domestig ar denantiaethau newydd i denantiaid newydd neu bresennol os yw'r gyfradd EPC yn F neu G (oni bai bod eithriad yn berthnasol). O 1 Ebrill 2020 ymlaen, bydd y gwaharddiad ar osod eiddo sydd â chyfradd EPC F neu G yn estyn i bob eiddo perthnasol, hyd yn oed os nad yw'r denantiaeth wedi newid.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cynnydd o Fand EPC E i C yn uchelgeisiol a bydd angen ystyried goblygiadau hynny i'r Sector Rhentu Preifat yn llawn. Roedd cynyddu'r isafswm i Fand E wedi golygu y bu angen gwneud gwelliannau mawr i rai eiddo rhent. Os yw'r isafswm yn cael ei estyn ymhellach i Fand C, gallai arwain at arbedion o ran costau a lleihau effeithiau amgylcheddol. Fodd bynnag, bydd angen ystyried yn llawn y gost o wneud hynny i landlordiaid a'r effaith negyddol bosibl ar y Sector Rhentu Preifat.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Oni bai am MEES a'r Rhaglen Cartrefi Clyd, pa drefniadau sydd yn eu lle i annog a/neu gymell landlordiaid preifat i wella pa mor effeithlon y mae eu heiddo yn defnyddio ynni?**

Caiff Rheoliadau MEES eu gorfodi gan awdurdodau lleol sydd ag amrywiaeth o bwerau i wirio a sicrhau cydymffurfedd. Yng Nghymru, Rhentu Doeth Cymru sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Rhentu Doeth Cymru i'w alluogi i nodi'r holl eiddo rhent yng Nghymru sydd heb EPC, neu sydd â chyfradd EPC F neu G.

Ar ôl gwneud hynny, bydd awdurdodau lleol yn cysylltu â pherchnogion y cartrefi hyn i gynnig cymorth posibl iddynt drwy gynllun Nyth neu gynlluniau eraill, megis y cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO). Caiff landlordiaid eu hatgoffa y gall camau gorfodi ddilyn os nad yw gwelliannau yn cael eu gwneud. Yn wahanol i Loegr, drwy Rhentu Doeth Cymru, mae modd targedu landlordiaid cartrefi yn y Sector Rhentu Preifat i'w hannog i wella pa mor effeithlon y mae eu heiddo yn defnyddio ynni.

Yn ogystal â chymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, y Grid Cenedlaethol a Cwmni Buddiannau Cymunedol, mae Affordable Warmth Solutions wedi sefydlu Cronfa Cartrefi Clyd gwerth £150 miliwn i helpu awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sefydliadau eraill i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n effeithio ar aelwydydd tlawd o ran tanwydd. Yr uchafswm cyllid sydd ar gael ar gyfer gosod pob boeler nwy (boeler combi gradd A), er enghraifft, yw £2660. Mae Rhentu Doeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r cartrefi mwyaf aneffeithlon ac yn cyfuno Cyllid Cartrefi Clyd ag ECO i helpu i osod systemau gwres canolog a bwerir gan nwy.

**MONITRO A GWERTHUSO STRATEGAETH 2010**

**Roedd Strategaeth 2010 yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Monitro a Gwerthuso ar gyfer y strategaeth. A gyflawnwyd hynny?**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun tystiolaeth i fynd gyda Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010. Mae modd lawrlwytho'r cynllun tystiolaeth yma:
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/fuel-poverty-evidence-plan.pdf

**ARDALOEDD GWLEDIG**

**Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil drud, megis olew, mewn ardaloedd gwledig? Sut ydych yn cefnogi aelwydydd nad ydynt yn gallu cael mynediad i nwy o'r prif gyflenwad i allu manteisio ar opsiynau gwresogi fforddiadwy eraill?**

Mae olew yn parhau i fod yn un o'r tanwyddau mwyaf rhad i wresogi ystafelloedd a dŵr mewn ardaloedd oddi ar y grid. Mae ei ddefnydd parhaus, fodd bynnag, yn tanseilio ein hymdrechion ehangach i ddatgarboneiddio tai yng Nghymru. Mae hyn yn dangos y tensiwn rhwng ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a'r angen i ddatgarboneiddio tai yng Nghymru. Mae capiau gwario sy'n gymwys i gynlluniau'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn fwy hael, fodd bynnag, mewn cartrefi sydd â chyfraddau is o ran effeithlonrwydd ynni mewn ardaloedd oddi ar y grid nwy.

Uchafswm y buddsoddiad a ganiateir mewn cartref drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd yw £12,000, sy'n gymwys i'r cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni mewn ardaloedd oddi ar y grid. O gymharu

â hynny mae £5,000, uchafswm is y buddsoddiad a ganiateir, ar gael ar gyfer cartrefi sydd â chyfradd effeithlonrwydd uwch mewn ardaloedd ar y grid.

Mae rhai achosion, fodd bynnag, lle y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried, ac os yw'n briodol, yn cymeradwyo camau sy'n costio mwy na'r hyn y mae'r cap yn ei ganiatáu ar hyn o bryd. Mae opsiynau fforddiadwy ar wahân i wres canolog a bwerir gan olew mewn ardaloedd oddi ar y grid yn gyfyngedig. Mae gwres trydan, er ei fod yn effeithlon, yn gymharol ddrud, yn enwedig mewn cartrefi sy'n llai effeithlon yn thermol. Mae cost gosod inswleiddio waliau solet neu allanol i wella effeithlonrwydd thermol cartrefi mawr yn gallu bod yn ddrud, ond gall leihau'n sylweddol ar yr ynni sydd ei angen i gynnal system wresogi foddhaol.

Gallai gwelliannau o ran technegau inswleiddio sy'n golygu bod ôl-osod yn llai drud, ynghyd â datblygiadau o ran pympiau gwres ffynhonnell aer a thechnoleg pympiau gwres hybrid, gynnig datrysiad yn y dyfodol. Mae datblygiadau o ran systemau solar ffotofoltaig (PV) a thechnoleg storio ynni mewn batris, ynghyd â chynhyrchu ynni yn lleol gan ddefnyddio technoleg ynni adnewyddadwy yn feysydd y mae angen manteisio arnynt yn fwy. Rwyf wedi gosod targedau clir i gynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gan ac ar gyfer y cymunedau lleol hynny, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig oddi ar y grid.

**CAPIAU GWARIO**

**A allwch egluro a allai gwario ar gamau i wella effeithlonrwydd ynni aelwyd o dan y Cynlluniau Nyth ac Arbed fynd dros y capiau gwario y cytunwyd arnynt a sut allai wneud hynny?**

O dan delerau'r contractau a ddyfernir o dan gynlluniau Nyth ac Arbed y Rhaglen Cartrefi Clyd, gall asiantwyr ymgeisio i Lywodraeth Cymru i wneud gwelliannau i'w cartrefi sy'n uwch na'r terfynau gwario a bennwyd. Ers dechrau Arbed 3 a Nyth 2 yn 2018, mae lefelau buddsoddi sy'n uwch na'r terfynau ariannol wedi’u cymeradwyo ar gyfer tua 214 o gartrefi sydd wedi'u gwella o dan gynllun Arbed a thri chartref o dan gynllun Nyth.

**A ydych yn ymwybodol o unrhyw achosion lle nad yw prosiectau neu aelwydydd wedi gallu symud yn eu blaen oherwydd eu bod yn uwch na'r capiau?**

Mae camau effeithlon o ran ynni sydd ar gael drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn cael eu cynnig ar sail argymhellion yn dilyn asesiad o'r eiddo cyfan. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno cais i gynllun Nyth a arweinir gan alw nad ydynt wedi cael cynnig cymorth oherwydd y terfynau gwario sy'n gymwys fesul eiddo. Wrth ddatblygu prosiectau sy'n addas i'w darparu ar lefel ardal gyfan o dan gynllun Arbed, mae'r terfyn gwario sy'n gymwys i bob eiddo yn ffactor wrth asesu a yw prosiect yn ariannol hyfyw. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl nad oedd prosiectau a ddatblygwyd gan Arbed am Byth wedi symud yn eu blaen oherwydd nad oedd y gwelliannau effeithlonrwydd ynni a oedd yn bosibl o fewn y cyllid oedd ar gael yn arbed digon o ynni.

**DATGARBONEIDDIO**

**Mae'r rhan fwyaf o ymyriadau o dan gynllun Nyth yn geisiadau i ddisodli boeleri. Ydych chi'n poeni ynghylch i ba raddau y mae hyn yn cydweddu â'ch uchelgeisiau datgarboneiddio?**

Mae'n wir i ddweud mai rhan fwyaf o'r camau effeithlon o ran ynni a osodir drwy gynllun Nyth yw boeleri newydd neu osod boeleri newydd yn lle hen rai. Ar gyfer llawer o gartrefi, mae gosod boeleri newydd mwy effeithlon yn lle hen rai yn ffordd effeithiol o leihau biliau ynni ac allyriadau carbon. Mae gwaith yn parhau i ddatgarboneiddio'r grid nwy, a fydd hefyd yn

cefnogi ymdrechion i leihau allyriadau carbon. Cydnabyddir bod gan nwy rôl i'w chwarae wrth inni geisio cyflawni targedau datgarboneiddio 2050.

## GWASANAETH CYNGHORI YN Y CARTREF

**A allwch ddarparu gwybodaeth bellach ar y gwasanaeth cynghori yn y cartref sydd ar gael drwy Nyth, gan gynnwys i ba raddau y mae'r gwasanaeth hwn ar gael ac yn cael ei ddefnyddio?**

Ers 2011, mae Nyth wedi rhoi cyngor i fwy na 129,000 o bobl ar sut y gallant wella pa mor effeithlon y mae eu cartrefi yn defnyddio ynni. O dan delerau'r Contract Nyth presennol a ddyfarnwyd gan British Gas yn 2018, mae cyngor ar ynni yn y cartref yn cael ei ddarparu i aelwydydd sy'n gymwys i fanteisio ar gamau i wneud eu cartref yn fwy effeithlon o ran ynni o dan y cynllun. Mae pobl nad ydynt yn gymwys i fanteisio ar gamau o'r fath yn cael cyngor ac yn cael eu cyfeirio at grwpiau cymorth lleol yn yr ardal drwy linell gymorth dros y ffôn. Mae sylwadau wedi'u gwneud sy'n awgrymu y gellid gwella'r cyngor a'r dulliau cyfeirio, er nad yw pob rhanddeiliad yn rhannu'r farn honno.

**A allwch ddarparu manylion pellach ynghylch prosiectau sy'n ymwneud â phrynu ynni yn glyfar, a gyflawnir drwy'r Rhaglen Tai Arloesol?**

Mae'r Rhaglen Tai Arloesol wedi cefnogi sawl prosiect i ddatblygu cartrefi ynni gweithredol. Mae'r rhain yn gartrefi sy'n defnyddio technolegau i gynhyrchu, storio a rhyddhau eu hynni eu hunain. Fodd bynnag, dim ond un cynllun sydd ar waith ar hyn o bryd ym Mharc Eirin, Tonyrefail. Bydd cartrefi dan y cynllun hwn yn defnyddio technolegau clyfar i werthu ynni sydd wedi'i storio ar adegau pan fo’r galw am ynni ar ei fwyaf er mwyn lleihau biliau ynni tenantiaid. Mae dau gynllun pellach wedi'u cymeradwyo am gyllid grant dan y Rhaglen Tai Arloesol, ar yr amod eu bod yn bodloni amodau'r grant. Bydd y cynlluniau hyn yn defnyddio'r un technolegau ac egwyddorion gwerthu ynni sydd wedi'i storio ar adegau pan fo’r galw am ynni ar ei fwyaf er mwyn lleihau biliau ynni tenantiaid.

**A allwch ddarparu rhestr o'r hyn sydd wedi'i esemptio rhag y gwaharddiad ar landlordiaid preifat rhag gosod eiddo â chyfradd EPC F neu G?**

Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud darpariaeth ar gyfer esemptiad o fewn Rheoliadau MEES os nad oes modd gwella cyfradd yr eiddo i gyfradd EPC E am £3,500 neu lai. Mewn achosion o'r fath, argymhellir bod landlordiaid yn gwneud yr holl welliannau hyd at y swm hwn, ac yna cofrestru esemptiad bod yr holl welliannau wedi'u gwneud. Mae'r esemptiad yn gymwys am bum mlynedd, ac yna bydd yn ofynnol i landlordiaid wneud ymdrechion pellach i gyrraedd cyfradd EPC E, neu ymgeisio am esemptiad pellach. Mae amryfal esemptiadau yn gymwys i'r gwaharddiad rhag gosod eiddo sydd â chyfradd effeithlonrwydd ynni is nag E. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi gwybodaeth am yr esemptiadau hyn ac mae i'w gweld yma: <https://www.gov.uk/government/publications/private-rented-sector-minimum-energy-efficiency-standard-exemptions/guidance-on-prs-exemptions-and-exemptions-register-evidence-requirements>

**A allwch ddarparu gwybodaeth ynghylch nifer yr eiddo yn y sector rhentu preifat yng Nghymru na fydd modd eu gosod o dan Reoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 ar ôl 1 Ebrill 2020?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid ar gael i Rhentu Doeth Cymru ymgymryd ag asesiad o'r data a gasglwyd oddi wrth landlordiaid yn y sector rhentu preifat yn unol â'r gofrestr EPC. Mae cyfanswm o 8086 o eiddo wedi'u nodi fel rhai sydd â chyfradd EPC F neu G ac ni fydd modd eu gosod o dan y trefniadau newydd.

Mae Rhentu Doeth Cymru wedi llunio mapiau a data ar lefel awdurdod lleol ac yn cysylltu â landlordiaid nad ydynt yn cydymffurfio â'r safonau i'w hatgoffa am eu cyfrifoldebau. Caiff cymorth ei gynnig i landlordiaid ar sut y gallant gyflawni a chynnal y safonau gofynnol. Caiff landlordiaid sy'n gwrthod cydymffurfio â'r safonau eu cyfeirio at awdurdodau lleol a fydd o bosibl yn cymryd camau gorfodi.

**Mae awdurdodau lleol yn cyfuno grantiau i dalu am gost gwaith galluogi fel bod camau effeithlon o ran ynni yn gallu cael eu gosod mewn cartrefi, a phan fydd y gwersi a ddysgwyd o'r dull gweithredu hwn yn amlwg.**

Mae awdurdodau a sefydliadau lleol yn y trydydd sector, megis Care and Repair wedi rhoi gwybod bod y diffyg cymorth ar gyfer gwaith galluogi sydd ar gael i bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd wedi eu hatal rhag dod allan o dlodi tanwydd.

Mae rheolwyr cynlluniau Nyth ac Arbed wedi dweud nad oes camau i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi wedi'u gosod oherwydd bod angen gwneud mân atgyweiriadau yn gyntaf. Nid yw gwaith galluogi o fewn cwmpas cynlluniau'r Rhaglen Cartrefi Clyd ar hyn o bryd. Mae awdurdodau lleol yn gallu rhoi rhywfaint o gymorth, megis benthyciadau i wella cartrefi, i helpu i dalu am gostau mân atgyweiriadau. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fod angen cymorth a chefnogaeth ychwanegol o bosibl ar bobl sy'n byw ar incymau is. Fel rhan o'r cynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, felly, rwy'n cynnig dechrau cynllun peilot i helpu i dalu am gostau mân waith galluogi. Efallai y bydd yn helpu i gael gwared ar y rhwystr sy'n wynebu aelwydydd ar incymau is sy'n byw mewn tlodi tanwydd rhag manteisio ar y cymorth yr ydym yn ei gynnig.

Cofion,



Lesley Griffiths AC

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig